# Diwygiadau i Gynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân

Mae newidiadau wedi eu gwneud i Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân a Chynllun Iawndal y Diffoddwyr Tân. Daw'r newidiadau hyn i rym ar 1 Ebrill 2019 a cheir eglurhad isod:

## Pensiynau ar gyfer partneriaid sy'n goroesi

Mae rheolau cynllun 1992 a'r cynllun iawndal ar gyfer pensiynau i oroeswyr wedi newid yn dilyn dyfarniad cyfreithiol[1]. Dyfarnwyd bod y cyfyngiad ar wasanaeth wrth gyfrifo pensiwn partneriaid sy'n goroesi ar gyfer partneriaid sifil[2] a chyplau priod o'r un rhyw sydd wedi priodi[3] yn anghyfreithlon.

Mae Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân 1992 a Chynllun Iawndal y Diffoddwyr Tân wedi cael eu diwygio i dynnu'r cyfyngiad ar wasanaeth a ddaeth i rym ar 6 Ebrill 1988 ac sy'n cael ei ddefnyddio wrth gyfrifo pensiwn goroeswyr ar gyfer partneriaid sifil neu gyplau priod o'r un rhyw. Mae'r newid hwn yn ôl-weithredol.

Caiff hyn yr effaith canlynol;

- Os ydych chi'n aelod fel diffoddwr tân (pa un ai a ydych chi'n weithredol, wedi gadael neu wedi ymddeol) ac mewn partneriaeth sifil neu briodas unrhyw nid oes yn rhaid i chi wneud dim byd, bydd y pensiwn goroeswyr a fydd yn daladwy i'ch partner ar ôl eich marwolaeth yn cael ei gyfrifo'n awtomatig ar sail eich gwasanaeth llawn amser heb gyfyngiad.

- Os ydych chi'n derbyn

    - Pensiwn goroeswyr o gynllun y Diffoddwyr Tân 1992, a/neu

    - Pensiwn goroeswyr o'r cynllun iawndal (o dan reoliadau'r cynllun iawndal, telir pensiwn goroeswyr dim ond pan fo'r cyn Diffoddwr Tân wedi marw o ganlyniad i effeithiau anaf cymwys neu wendid meddwl neu gorfforol o ganlyniad i effeithiau anaf cymwys)

  a'ch bod mewn partneriaeth sifil neu briodas un-rhyw, bydd eich pensiwn yn cael ei gyfrifo ar sail gwasanaeth cyfyngedig o 6 Ebrill 1998 yn unig. Mae'n bosib y bydd rhaid ail-gyfrifo'ch taliad pensiwn i gynnwys gwasanaeth llawn y Diffoddwr Tân.

[1] Walker v Innospec Limited ac eraill - https://www.supremecourt.uk/cases/uksc-2016-0090.html
[2] Ffurfiwyd o dan Ddeddf Partneriaeth Sifil 2004 http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2004/33/section/1
[3] Ffurfiwyd o dan Ddeddf Priodas (Cyplau o'r Un Rhyw) 2013 http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2013/30/contents/enacted/data.htm

- Os oedd aelod o’r teulu neu ffrind, sydd bellach wedi marw, yn derbyn
  - Pensiwn goroeswyr gan gynllun y Diffoddwyr Tân, a/neu
  - Pensiwn goroeswyr o’r cynllun iawndal (o dan reoliadau’r cynllun iawndal, telir pensiwn goroeswyr dim ond pan fo’r cyn Diffoddwr Tân wedi marw o ganlyniad i effeithiau anaf cymwys neu wendid meddwl neu gorfforol o ganlyniad i effeithiau anaf cymwys)

o ganlyniad i fod mewn priodas un-rhyw neu bartneriaeth sifil gydag aelod o gynllun y Diffoddwyr Tân, yna mae’n bosib bod y pensiwn wedi ei gyfrifo ar sail gwasanaeth cyfyngedig o 6 Ebrill 1988 yn unig.

**Os ydych chi’n credu y bydd y newidiadau hyn yn effeithio arnoch chi neu rywun yr ydych chi’n ei adnabod yna anfonwch e-bost i: pensions@carmarthenshire.gov.uk am ragor o wybodaeth.**

**Ymwadiad**
Paratowyd y daflen hon yn seiliedig ar ddealltwriaeth Ysgrifenyddiaeth Bwrdd Cynghori’r Cynllun o’r wybodaeth bresennol sydd ar gael gan gynnwys y ddeddfwriaeth bresennol sydd yn llywodraethu Cynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân a’r brif ddeddfwriaeth gysylltiedig. Mae’n cynrychioli barn yr Ysgrifenyddiaeth ac ni ddylid ei drin fel datganiad diffiniol o’r gyfraith. Fe all darllenwyr, neu bydd rhaid i ddarllenwyr, geisio cyngor cyfreithiol unigol ar unrhyw ddehongliadau penodol o’r ddeddfwriaeth. Ni fydd y Gymdeithas Lywodraeth Leol yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb dros unrhyw golled uniongyrchol neu ddilynol, ariannol nai peidio, difrod neu anghyfleustra, neu unrhyw oblygiadau neu atebolrwydd o ganlyniad i gyfnewid yr wybodaeth sydd wedi ei gynnwys yn y daflen hon.

Cyfeiriwch unrhyw ymholiadau  ynglŷn â chynnwys y daflen hon i [bluelight.pensions@local.gov.uk](mailto:bluelight.pensions@local.gov.uk)

Mai 2019